**Mick Antoniw AS/MS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@Senedd.Cymru

7 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin 2023 yn gofyn am ymateb i gwestiynau mewn perthynas â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Byddwch yn gwybod bod y Bil bellach wedi cael y Cydsyniad Brenhinol a'i fod yn Ddeddf. Mae fy atebion wedi'u nodi yn yr Atodiad canlynol.

Edrychaf ymlaen at ymddangos gerbron eich Pwyllgor ar 10 Gorffennaf 2023, a fydd yn gyfle, rwy'n siŵr, i drafod rhai o'r materion hyn yn fanylach.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

*Cwestiwn 1: Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i rhestru yn yr Atodlen newydd?*

Nid ymgynghorodd Llywodraeth y DU â'r Llywodraethau Datganoledig wrth iddi ddrafftio'r Atodlen. Serch hynny, asesiad Llywodraeth Cymru yw nad yw hi'n ymddangos y bydd unrhyw broblemau i feysydd o fewn cymhwysedd datganoledig yn deillio o ddirymu'r offerynnau a restrir yn yr Atodlen.

*Cwestiwn 2: A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pŵer newydd i wneud rheoliadau i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i rhestru yn yr Atodlen rhag cael ei dirymu?*

Fel uchod, nid ydym ar hyn o bryd yn gweld yr angen i arfer pwerau o'r fath ac nid oes gennym gynlluniau cyfredol i'w defnyddio.

*Cwestiwn 3: A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch bwriad Gweinidogion y DU i ddefnyddio'r pŵer newydd i wneud rheoliadau i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i rhestru yn yr Atodlen rhag cael ei dirymu, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig?*

Yn seiliedig ar drafodaethau ar lefel swyddogion â Llywodraeth y DU, nid ydym yn disgwyl iddi ddefnyddio pwerau o'r fath mewn perthynas ag unrhyw offerynnau yn yr Atodlen, boed yn rhai a gedwir yn ôl neu'n rhai datganoledig.

*Cwestiwn 4: O dan ba amgylchiadau y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau o dan y Bil mewn meysydd datganoledig?*

Fel yr ydym wedi'i nodi sawl gwaith, pwysodd Llywodraeth Cymru yn gryf ar Lywodraeth y DU i gynnwys gofyniad ar wyneb y Bil i Weinidogion y Goron gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn deddfu mewn meysydd datganoledig. Yn anffodus, ni chytunodd Llywodraeth y DU i hynny. Rydym yn parhau mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch mecanwaith cydsyniad amgen. Ni fyddem ond yn fodlon i bwerau o'r fath gael eu defnyddio mewn meysydd datganoledig pe bai digon o amser yn cael ei roi i ystyried unrhyw gynnig o'r fath, a phe bai safbwyntiau Llywodraeth Cymru yn cael eu parchu.

*Cwestiwn 5: Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal a/neu sy'n cael eu cynnal â Llywodraeth y DU ynghylch arfer y pwerau cydredol yn y Bil?*

Fel uchod, rydym yn parhau i drafod y mater hwn â Llywodraeth y DU.

*Cwestiwn 6: A yw'r trafodaethau â Llywodraeth y DU wedi cynnwys ceisio ymrwymiadau ynghylch telerau a fydd ynghlwm wrth arfer y pwerau cydamserol, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan pan nad yw'n bwriadu cymryd safbwynt gwahanol?*

Ydynt.

*Cwestiwn 7: Pa gytundebau ac ymrwymiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio a'u rhoi ar waith o ran pryd a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybod pryd y bydd Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud rheoliadau mewn maes datganoledig?*

Mae'r mater hwn yn parhau i gael ei drafod gyda golwg ar sicrhau bod safbwyntiau Gweinidogion Cymru yn cael eu hystyried a'u parchu'n briodol.

*Cwestiwn 8: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhannu gwybodaeth berthnasol â'r Senedd mewn modd amserol am arfer (neu am ei bwriad i arfer) y pwerau hyn?*

Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod y Senedd yn cael ei chynnwys yn briodol yn y broses hon, fel y dywedais o'r blaen. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â chlercod y Pwyllgor a byddwn yn hapus i fanylion hyn gael eu hystyried yn y trafodaethau hynny. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

*<u>Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil</u>*

*Cwestiwn 9: A allwch chi ddiweddaru'ch ymatebion i gwestiynau 14, 15 ac 19 yn fy llythyr dyddiedig 16 Mai, a rhoi'ch barn am y pwerau ychwanegol a roddwyd i Weinidogion Cymru.*

O ran y cwestiynau yn eich llythyr ar 16 Mai, mewn perthynas â Chwestiwn 14, nid ydym yn gwybod o hyd union fwriadau Llywodraeth y DU ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn i ddirymu neu ddisodli o dan yr hyn sydd bellach yn adran 14 o'r Ddeddf (cymal 15 gynt).

O ran Cwestiwn 15, fel uchod, gallaf ddatgan ymhellach nad oes gennym unrhyw gynlluniau cyfredol i ddefnyddio unrhyw bwerau i ddiwygio Atodlen 1 gan nad yw hi'n ymddangos bod angen am hynny. Byddwn yn rhoi gwybod i'r Senedd os bydd y sefyllfa honno'n newid.

O ran Cwestiwn 19, nid oes bwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pŵer i ddiwygio'r Bil ei hun, er ein bod yn ystyried defnyddio'r pŵer er mwyn gwneud diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i ddeddfwriaeth a wnaed yng Nghymru.

*Sifftio offerynnau statudol negyddol arfaethedig*

*Cwestiwn 10: Yn amodol ar benderfyniad ffurfiol y byddwn hefyd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o fod yn 'bwyllgor sifftio' pan fydd y pwerau perthnasol yn cael eu harfer o dan y Bil hwn, a fyddech yn cytuno i wneud ymrwymiad tebyg i hwnnw a oedd ar waith yn flaenorol a chytuno y bydd Llywodraeth Cymru unwaith eto yn ceisio gosod unrhyw offerynnau negyddol arfaethedig i'w sifftio ar ddydd Mawrth (ac osgoi eu gosod ar ddydd Iau a dydd Gwener)?*

Byddem.

*Machlud hawliau sy'n deillio o'r UE, ac egwyddorion cyfraith yr UE*

*Cwestiwn 11: A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ynghylch machlud hawliau a rhwymedigaethau sy'n cael effaith uniongyrchol, gan nodi a yw Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd pwerau yn y Bil yn cael eu defnyddio i adfer egwyddor goruchafiaeth neu egwyddorion eraill a ddargedwir ac, os felly, pryd y bydd hynny'n digwydd?*

Bu Llywodraeth Cymru yn datgan ei phryderon i Lywodraeth y DU am y set gymhleth hon o faterion dros gyfnod estynedig o amser yn ystod taith y Bil yn San Steffan. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU ac ni cheisiodd wneud unrhyw newidiadau i'r Bil i roi sylw i'r mater. Gan fod y Bil bellach yn Ddeddf, mae Llywodraeth y DU yn trafod hyn â'r Llywodraethau Datganoledig, i weld beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater gan ddefnyddio pwerau priodol ar gyfer Gweinidogion y DU neu Weinidogion Datganoledig yn y Ddeddf, megis ailddatganiad. Mae hyn yn ddarn sylweddol o waith yr ydym bellach yn gorfod ei wneud fesul achos ar draws gwahanol feysydd polisi a darnau o ddeddfwriaeth. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

*Dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir a nodi cyfraith yr UE a ddargedwir*

*Cwestiwn 12: A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i nodi cyfraith yr EU a ddargedwir yng Nghymru?*

Cafodd yr angen sylfaenol i nodi'r darnau o ddeddfwriaeth sy'n gyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed yng Nghymru ei oddiweddyd gan y newidiadau i'r hyn sydd bellach yn adran 1 o'r Ddeddf a wnaeth ddileu'r ddarpariaeth i ddirymu'n awtomatig ("machlud") yr holl ddarnau cymwys o gyfraith yr UE a ddargedwir a chyflwyno'r rhestr yn Atodlen 1 yn ei lle. O ganlyniad, rydym wedi blaenoriaethu materion eraill

megis sicrhau nad yw'r offerynnau yn yr Atodlen yn destun pryder mewn perthynas â materion datganoledig yng Nghymru.

*Cwestiwn 13: A allwch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn awr wedi gofyn i Lywodraeth y DU ychwanegu rhestr Llywodraeth Cymru o gyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru at y dangosfwrdd?*

Yn yr un modd, nid ydym wedi mynd ar drywydd y mater hwn gan fod ei gyd-destun bellach wedi newid yn sylfaenol.

*Cwestiwn 14: A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal (neu yn eu cynnal) gyda Llywodraeth y DU ynghylch nodi'r rhaniad rhwng cyfraith y DU sy'n ddatganoledig ac a gedwir yn ôl?*

Gwnaeth y newid sylfaenol i'r Bil a amlinellir uchod ddileu'r gofyniad i nodi pob darn o gyfraith yr UE a ddargedwir er mwyn eu cadw a hefyd yr angen i'w gwneud yn glir pa ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir a oedd wedi'u nodi gan Lywodraeth y DU a oedd yn rhai datganoledig a pha rai oedd yn rhai a gedwir yn ôl. Pan fydd darnau penodol o gyfraith yr UE a ddargedwir yn cael eu nodi gan Lywodraeth y DU, er enghraifft ar gyfer ailddatgan neu ddiwygio, byddwn yn canolbwyntio ar raniad yr offerynnau hynny o ran y rhai datganoledig a'r rhai a gedwir yn ôl a, lle ceir diddordeb datganoledig, ar ddeall goblygiadau unrhyw newid arfaethedig i Gymru. Yn ehangach, rydym yn parhau i fod mewn deialog agos â Llywodraeth y DU ar lefel swyddogion ynghylch materion perthnasol sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir.

*<u>Diwygio cyfraith yr UE a Ddargedwir a Fframweithiau Cyffredin</u>*

*Cwestiwn 15: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y modd mae (neu y bydd) y strwythurau presennol i reoli Fframweithiau Cyffredin y DU gyfan yn cael eu defnyddio i drafod y broses o ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir?*

Cytunwyd yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ym mis Chwefror eleni, pan fydd cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd sydd wedi'u cwmpasu gan Fframweithiau Cyffredin, mai nhw yw'r fforymau mwyaf priodol ar gyfer trafod unrhyw ddiwygiad posibl i gyfraith yr UE a ddargedwir. Rydym yn parhau i drafod hyn â llywodraethau eraill y DU, yn enwedig y meysydd polisi mwyaf perthnasol.